# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 a Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Mai 2022

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

## Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

### (Rhag-gyfarfod preifat)

(09.00 - 09.15)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.15)

### 2 Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hyn: Sesiwn Dystiolaeth 3

(09.15 - 10.15) (Tudalennau 1 - 30)

Maria Bell - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Dave Street - ADSS Cymru

### (Egwyl)

(10.15 - 10.25)

### 3 Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hyn: Sesiwn Dystiolaeth 4

(10.25 - 11.25) (Tudalennau 31 - 39)

Helena Herklots - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

### (Break)

(11.25 - 11.45)

### 4 Craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus: Sesiwn Dystiolaeth

(11.45 - 12.45) (Tudalennau 40 - 58)

Dr Andrew Goodall - Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(12.45)

Eitemau 6 a 7

## 6 Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hyn: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(12.45 - 12.55)

## 7 Craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(12.55 - 13.00)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

## Mai 2022

### Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Gomisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn.

Mae gofal cymdeithasol yn sector eang ac amrywiol, lle bydd wastad angen cartrefi gofal o ansawdd da i rai pobl hŷn i'w cefnogi i fyw bywydau sydd â gwerth, ystyr a phwrpas.

Mae cadw'n dda, teimlo'n dda a gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i ni yn hanfodol bwysig i bawb yng Nghymru. Gall yr angen am gymorth ychwanegol i wneud hyn gynyddu gydag oed. Hyd yn oed gyda phwyslais cynyddol ar atal ac ymyrraeth gynnar, mae'r ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio yn golygu y bydd nifer y bobl hŷn sydd angen cymorth ychwanegol yn debygol o gynyddu dros amser.

Mae gofal cymdeithasol yn sector eang ac amrywiol sydd angen bod yn hyblyg, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Dylai fod yn briodol, yn amserol ac yn hygyrch, ac yn gyson o ran y gwasanaethau a ddarperir a'r meini prawf ar gyfer cael mynediad atynt. Dylai pobl hŷn fod wrth wraidd yr holl benderfyniadau am y gofal cymdeithasol maent yn ei dderbyn.

Mae cartrefi gofal o ansawdd da yn un math o ofal cymdeithasol a all gael effaith fuddiol sylweddol ar fywydau pobl hŷn. Hyd yn oed wrth ddatblygu ac arallgyfeirio'r ddarpariaeth tai ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal, i rai, bydd cartrefi gofal yn parhau i fod y ffordd orau o dderbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt a'u cefnogi i fyw bywydau sydd â gwerth, ystyr a phwrpas.

Mae cartrefi gofal yn rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach ac yn wynebu problemau a welir ar draws y system gyfan, fel staffio neu bwysau'r gaeaf. Gall argyfwng mewn un rhan o'r system gael sgil-effaith ar y system gyfan. Er enghraifft, gall diffyg gwasanaethau gofal cartref arwain at gynnydd yn niferoedd y bobl sy'n cyrraedd cartrefi gofal, yn ogystal ag oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai, ymhlith pethau eraill. Gall brigiad o achosion mewn cartref gofal hefyd arwain at oedi wrth ryddhau o'r ysbyty. Felly ni all comisiynu lleoedd cartrefi gofal gael ei wahanu'n gyfan gwbl wrth gomisiynu gwasanaethau eraill, fel gwasanaethau gofal cartref a gofal cam-i-lawr.

## Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

Yn 2014, galwodd Adroddiad y Comisiynydd *Lle i'w Alw'n Gartref?*[1] am ddatblygu cynllun cenedlaethol i sicrhau cyflenwad o gartrefi gofal o ansawdd uchel yn y dyfodol. Galwodd yr adroddiad am gynllun a fyddai'n cynnwys rhagamcaniad demograffig cenedlaethol o angen a thueddiadau a newidiadau a ragwelir yn y math o ddarpariaeth sydd ei hangen. Yna gosododd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynhyrchu asesiad o anghenion y boblogaeth am ofal a chymorth, i ba raddau nad yw'r angen hwnnw'n cael ei ddiwallu a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen a aseswyd. Cyhoeddwyd yr Asesiadau Poblogaeth cyntaf gan fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2017 gyda'r cyhoeddiadau diweddaraf yn 2022.

Mae Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn amrywio ar draws Cymru ac mae angen data mwy cadarn er mwyn asesu'n gywir anghenion gofal cymdeithasol y boblogaeth ac i ba raddau y mae'r anghenion hynny heb eu diwallu ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r data a gesglir o dan Ddeddf 2014 yn ymwneud â'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol, ac nid yw data'r boblogaeth wedi'i ddadgyfuno'n ddigonol yn ôl oedran. Nid oes darlun clir ar draws Cymru o nifer y bobl hŷn sy'n aros mewn ysbytai ac yn gymuned am ofal cartref na'r niferoedd sy'n eiddil ac mewn perygl o ddigwyddiad sy'n newid bywydau a allai arwain at fod angen gofal cymdeithasol.

Mae amcangyfrifon o'r angen tebygol am gartrefi gofal yn y dyfodol yn dueddol o fod yn seiliedig ar amcanestyniadau syml sy'n seiliedig ar oed. Mae casglu data cadarn sy'n datgelu nodweddion y bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol, angen gofal cymdeithasol neu mewn perygl o'i angen, yn hanfodol os ydym am asesu a diwallu anghenion y boblogaeth yn effeithiol. Dylai casglu data hefyd gynnwys ffactorau fel nifer y bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, y ddarpariaeth tai hygyrch a pha fathau o wasanaethau y mae pobl hŷn eisiau eu defnyddio. Mae'n hanfodol hefyd fod y data yn cael ei gasglu i sicrhau y gall gwasanaethau gofal cymdeithasol ymateb i anghenion diwylliannol ac ieithyddol.

## Ymgysylltu

Mae pobl hŷn yn "arbenigwyr o brofiad" a dylent fod yn bartneriaid cyfartal mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gall pobl hŷn fod yn: breswylwyr cartrefi gofal, lle mae'r cartref gofal yn gartref iddynt ac sydd am wneud yr holl bethau y byddai rhywun yn eu gwneud gartref fel arfer; perthnasau a ffrindiau preswylwyr cartrefi gofal, sydd am gynnal eu perthnasoedd teuluol a chymdeithasol; gweithwyr cyfredol neu gyn-weithwyr neu wirfoddolwyr sydd â phrofiad o weithio mewn cartrefi gofal; neu gyllidwyr sy'n talu rhan neu'r cyfan o gostau gofal eu hunain neu ar ran rhywun arall.

Felly mae gan bobl hŷn brofiad a phersbectif eang y dylid eu hystyried wrth gomisiynu cartrefi gofal ym mhob cam o'r broses. Dylid ymgysylltu â phobl hŷn a dylai eu lleisiau gael eu clywed, drwy gydol y cylch comisiynu, o'r asesiad o anghenion y boblogaeth, drwy

ddatblygiad y strategaeth gomisiynu, cynllunio a dylunio gwasanaethau, caffael a monitro’r broses o ddarparu gwasanaethau, hyd at adolygu a chroniclo’r hyn a ddysgwyd i lywio’r rownd gomisiynu nesaf.

Ymgysylltodd y Comisiynydd yn gynhwysfawr gyda phreswylwyr cartrefi gofal a’u teuluoedd fel rhan o’r adroddiad *Lle i’w Alw’n Gartref?* a chanfu fod blaenoriaethau preswylwyr yn cynnwys cyfranogiad cymdeithasol, meddiannaeth ystyrlon, amgylchedd cartrefol, hylendid personol, glanweithdra a chysur, profiad bwyta positif a mynediad i ofal iechyd.

Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd y Comisiynydd *Lleisiau Cartrefi Gofal*,[2] i roi llais i bobl sy’n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal a’u ffrindiau a’u teuluoedd, ac i roi cipolwg o'u profiadau yn ystod y pandemig Covid-19, y problemau a’r heriau a wynebwyd a’r newidiadau a’r gwelliannau yr hoffent eu gweld. Roedd y rhain yn cynnwys aros yn ddiogel, cael gwybodaeth a gweld anwyliaid a chadw mewn cysylltiad â nhw.

Mae’r adroddiad yn tanlinellu pa mor anodd oedd y cyfnod clo i nifer o bobl a oedd yn byw mewn cartrefi gofal. Tynnodd pobl sylw at faterion yn ymwneud â mynediad at wasanaethau iechyd, yn enwedig ymweliadau gan feddygon teulu, a’r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar iechyd corfforol preswylwyr. Serch hynny, roedd pwyslais sylweddol hefyd ar effaith Covid-19 ar iechyd meddwl a llesiant preswylwyr.

## Ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau

Mae prosesau comisiynu hyd yma wedi canolbwyntio’n amlach na pheidio ar fframweithiau a manylebau gwasanaethau yn hytrach nag ansawdd bywyd pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal. Mae’r Comisiynydd yn cytuno â Llywodraeth Cymru y dylai comisiynwyr ganolbwyntio ar gomisiynu ar gyfer ansawdd gwasanaethau a'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl hŷn. Ym marn y Comisiynydd, dylai’r canlyniadau hynny gynnwys:

- cynnal hawliau pobl hŷn;
- diogelu rhag dod â gwasanaeth i ben;
- sicrhau bod gan bawb fynediad at eu harian eu hunain;
- mynediad at eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod pobl yn gallu bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'n hanfodol bod nodau ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau yn cael eu cymhwyso'n gyson drwy gydol y broses gomisiynu, o’r asesiad o anghenion y boblogaeth, strategaeth a chynllunio drwy gaffael, darparu gwasanaethau a monitro, ac adolygu a gweithredu’r gwersi a ddysgwyd. Ar hyn o bryd, gall bwriadau comisiynu gael eu gwanhau neu eu negyddu gan y broses gaffael, a cheir diffyg gwybodaeth gyffredin a chydweithio wrth fonitro contractau i sicrhau bod pobl hŷn yn ddiogel, yn derbyn gofal da ac yn mwynhau ansawdd bywyd da, a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i lywio’r broses gomisiynu nesaf. Dylai’r broses o fonitro contractau gasglu data sy'n nodi i ba raddau y mae bwriadau comisiynu, ansawdd a chanlyniadau'n cael eu cyflawni, a dylid eu dadansoddi a'u defnyddio i lywio'r rownd gomisiynu nesaf. Gallai dangosyddion gynnwys, er enghraifft:

- ymweliadau gan ffrindiau a theulu;
- ymweliadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill;
- troi allan – achosion go iawn ac achosion posib;
- preswylwyr sydd â dirprwyon neu heb ddirprwyon;
- i ba raddau y mae hawliau'n cael eu cynnal.

## Cynnal Hawliau

Mae’r pandemig Covid-19 wedi taflu goleuni ar hawliau pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal ac i ba raddau y cânt ei cynnal.

I nodi’r camau y gellir eu cymryd i gryfhau hawliau pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal, mae’r Comisiynydd wedi sefydlu grŵp DU-gyfan o sefydliadau arbenigol. Mae un o’r meysydd i’w archwilio wedi bod yn ymwneud â chyflwyno ‘contract sy’n seiliedig ar hawliau’ mewn cartrefi gofal. Byddai ‘contract sy’n seiliedig ar hawliau’ yn nodi’n glir y ddyletswydd ar ddarparwr cartrefi gofal i gynnal hawliau penodol. Byddai dull o’r fath yn ymgorffori hawliau dynol (a hawliau cyfreithiol eraill) i’r broses o ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod cynnal hawliau preswylwyr yn ganolog i bopeth y mae staff yn ei wneud.

Mae cryfhau diogelwch preswylwyr yn erbyn ‘troi allan’ neu ddod â gwasanaeth i ben yn rhan hanfodol o gryfhau hawliau pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Mae’r Comisiynydd yn ymwybodol o enghreifftiau lle gofynnwyd i breswylydd adael cartref gofal, eu cartref, oherwydd anghytundeb ynglŷn â’r ffordd y darparwyd gwasanaeth neu fethiant yn y berthynas rhwng y cartref gofal â theulu’r preswylydd. Ni all fod yn dderbyniol i ofyn i berson hŷn adael eu cartref oherwydd eu bod nhw neu eu teulu wedi ceisio cynnal eu hawliau.

Ar hyn o bryd, mae preswylwyr yn cael 28 diwrnod o rybudd pan ddaw gwasanaeth i ben, yn aml oherwydd bod y cartref gofal wedi nodi na all ddiwallu anghenion y preswylydd mwyach. Er ei bod yn briodol i breswylydd symud i gartref gofal gwahanol os na ellir diwallu eu hanghenion yn ddigonol mwyach, ni ddylai preswylwyr cartrefi gofal a’u teuluoedd boeni am gael eu troi allan o’u cartref gofal yn sgil anghydfod rhwng y cartref a’r preswylydd, ac mae angen monitro pellach i sicrhau nad yw achosion yn mynd heb eu herio os ydynt yn codi. Gall diffyg cartrefi gofal priodol eraill gyda lleoedd gwag yn y lleoliad sy’n cael ei ffafrio fod yn rhwystr mawr i bobl wrth gynnal eu hawliau gan eu bod yn ofni colli eu cartref o ganlyniad.

## Y farchnad cartrefi gofal

Mae’r ffaith bod y farchnad cartrefi gofal yn fregus yn cael effaith uniongyrchol ar allu Llywodraeth Cymru i ysgogi newid ac, o ganlyniad, yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl hŷn. Ni ddylai poeni am gwymp yn y farchnad orfod cwtogi ar yr ymdrech am ansawdd uchel. Yn yr un modd, ni ddylai pobl hŷn fod yn gyndyn i gynnal eu hawliau oherwydd eu

bod yn poeni y gofynnir iddynt adael y gwasanaeth ac y byddai diffyg darpariaeth amgen briodol yn eu gadael heb unman i fynd.

Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol o enghreifftiau lle bo gweithiwr cymdeithasol wedi cynghori preswylwyr a'u teuluoedd i beidio â 'chynhyrfu'r dyfroedd' gan nad oes darpariaeth cartrefi gofal priodol arall ar gael. Ni ddylai methiant comisiynwyr i sicrhau marchnad sefydlog i gartrefi gofal orfodi pobl i dderbyn gofal o ansawdd gwael a thoriadau posibl o'u hawliau.

## Cyllid

Mae'r farchnad cartrefi gofal yn fregus yn rhannol oherwydd bod y trefniadau sydd ar waith i gyllido cartrefi gofal yn anghyson ar draws Cymru, ac nid yw wastad yn adlewyrchu gwir gost gofal. Mae penderfyniadau ynghylch a yw rhywun yn gymwys am Ofal Iechyd Parhaus y GIG neu'r Cyfraniad Gofal Nyrsio a ariennir gan y GIG, yn benodol, yn gymhleth a dadleuol, ac yn golygu bod preswylydd cartref gofal ag anghenion gofal iechyd naill ai'n cael eu holl gostau gofal, gan gynnwys costau "gwesty" wedi'u talu gan y GIG neu'n derbyn cyfraniad o £179.97 yn unig yr wythnos.

Oherwydd nad yw'r trefniadau ariannu cyhoeddus presennol wastad yn adlewyrchu gwir gost gofal, mae'r farchnad cartrefi gofal yn cael ei chynnal gan strwythurau ffioedd anghyfartal lle gall hunan-gyllidwyr fod yn rhoi cymhorthdal at gostau lleoliadau a ariennir yn gyhoeddus, a chartrefi gofal yn codi ffioedd atodol – ac mae ffioedd atodol weithiau'n cael eu gwahardd yn benodol mewn canllawiau. Mae yna bryder am ddiffyg mesurau gwneud iawn sydd ar gael yn hawdd i bobl sy'n dymuno gwrthwynebu ffioedd atodol. Mae nifer o bobl hŷn a'u perthnasau sy'n gwneud penderfyniad enfawr ynglŷn â mynd i gartref yn gwneud hynny heb wybodaeth a chyngor digonol.

### Croes-gymorthdaliadau

Ceir tystiolaeth anecdotaidd yng Nghymru y codir mwy o dâl ar unigolion sy'n ariannu eu hunain am eu lle mewn cartref gofal o'i gymharu ag unigolyn sy'n cael ei gefnogi gan yr Awdurdod Lleol, sydd mewn gwirionedd, yn groes-gymorthdaliadau i'r cyfraddau sy'n cael eu talu gan leoliadau awdurdodau lleol. Yn ogystal, canfu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wahaniaeth pris cyfartalog rhwng lleoedd hunan-ariannu a lleoedd a ariennir gan awdurdodau lleol ledled y DU.[3]

### Ffioedd atodol

Er bod Cod Ymarfer[4] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau asesu gallu unigolyn a'i berthnasau i dalu cyn rhoi person mewn cartref gofal lle gofynnir am daliadau trydydd parti, mae'r Comisiynydd wedi clywed wrth berthnasau sydd wedi derbyn biliau annisgwyl. Mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn methu ag egluro'r gofyniad i berthnasau dalu ffioedd atodol, a'u bod mewn gwirionedd yn trosglwyddo'r gofynion talu ychwanegol i berthnasau heb eu cytundeb neu wybodaeth ymlaen llaw.

Mae pris y contract sy’n cael ei dalu i gartref gofal gan yr awdurdod lleol yn cael effaith ar recriwtio a chadw staff, felly gall danseilio gallu cartrefi gofal i ddarparu gofal o ansawdd da a dilyniant gofal. Mae hyn yn broblem arbennig i'r nifer cynyddol o bobl sy'n byw gyda dementia a gall arwain at godi ffioedd atodol, weithiau ymhell ar ôl i'r unigolyn symud i’r cartref. Er bod y Cod Ymarfer ar godi ffioedd am wasanaethau gofal cymdeithasol yn nodi “rhaid i daliad ychwanegol wastad fod yn ddewisol a byth o ganlyniad i ddiffyg yn y cyllid y mae awdurdod lleol yn ei roi i gartref gofal i ddiwallu anghenion gofal person a aseswyd”, yn gynnar yn y pandemig, derbyniodd y Comisiynydd ymholiadau am gartrefi gofal a oedd yn gweud hynny’n union, er mwyn cyllido cyfarpar diogelu personol (PPE) a mesurau eraill i reoli heintiau. Daeth y ffioedd atodol i ben pan sicrhaodd awdurdodau lleol fod PPE ar gael am ddim i gartrefi gofal.

Mae tîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd hefyd wedi derbyn ymholiadau wrth berthnasau gofidus a oedd wedi cael cais gan ddarparwr cartref gofal i dalu ffioedd atodol ar ben cyllid Gofal Iechyd Parhaus y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhesymau a roddwyd gan y darparwr ar gyfer codi'r ffioedd atodol yn anghyson. Dywedodd perthnasau y dywedwyd wrthynt fod y ffioedd ar gyfer buddion ychwanegol fel mynediad i’r ardd (lle na allai eu perthnasau, a oedd yn gaeth i’w gwely yng nghamau olaf dementia ac yn agos at ddiwedd eu bywydau, ei defnyddio) neu ar gyfer ymweliadau â meddyg teulu (y mae’r Comisiynydd yn ei ystyried yn hanfod sylfaenol, nid moethusrwydd ychwanegol). Serch hynny, mae'r Comisiynydd wedi gweld llythyr wrth reolwr cartref gofal sy’n nodi bod y ffioedd yn cael eu codi oherwydd nad oedd cyfradd y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyllid Gofal Iechyd Parhaus yn ddigonol i ysgwyddo’r costau.

Mae’n bryder bod preswylwyr a’u teuluoedd wedi’i chael yn heriol i wrthwynebu ffioedd atodol cartrefi gofal. Gall unigolion fynd â’u hachosion at Adrannau Safonau Masnach yr awdurdod lleol a gallant gymryd camau cyfreithiol eu hunain. Serch hynny, mae cyllido cartrefi gofal yn faes cymhleth, ac nid yw’r lefel o arbenigedd sydd ei eisiau wastad ar gael. Mae hynny’n golygu mai cynrychiolaeth gyfreithiol bersonol yw’r llwybr mwyaf tebygol, ond mae’n ddrud ac yn anodd dod o hyd i gyfreithiwr priodol.

## Angen am fwy o fuddsoddi

Yn absenoldeb mwy o fuddsoddiad parhaus mewn gofal cymdeithasol drwyddi draw, dim ond cyn belled y gall gwella’r broses o gomisiynu cartrefi gofal fynd, a fyddai’n caniatáu i awdurdodau lleol dalu cyfradd well am wasanaethau gofal cartref. Gyda’r lefelau presennol o fuddsoddiad, mae rhai pobl hŷn sy’n methu â chael gofal cartref yn mynd i gartrefi gofal yn gynt nag y byddent fel arall, tra bod eraill ag anghenion cymhleth yn cael eu hanfon o’r ardal am le mewn cartref gofal, i ffwrdd wrth eu teuluoedd a’u ffrindiau, a gall y rhai sydd angen gwasanaethau Cymraeg (neu ieithoedd eraill) fod mewn ardaloedd lle darperir gwasanaethau yn Saesneg yn unig.

Mae’r Comisiynydd yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno’r Cyflog Byw Gwirioneddol i’r sector gofal, i fynd i’r afael â materion recriwtio a chadw staff, ond dylid

ystyried hwn fel cam cyntaf ac mae angen cynnydd pellach, yn enwedig yng ngoleuni chwyddiant cynyddol.

Ochr yn ochr â mwy o fuddsoddiad parhaus mewn cartrefi gofal, dylid cael mwy o gysondeb ar draws Cymru o ran yr hyn y mae awdurdodau lleol yn ei dalu fel ffioedd i gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol a chartrefi gofal y sector annibynnol. Mae'r Comisiynydd yn gobeithio y bydd y Fframwaith Gofal a Chymorth Cenedlaethol sydd ar y gweill yn sicrhau mwy o gysondeb o ran prisio contractau, tryloywder ynglŷn â'r hyn sydd wedi'i gynnwys a'r hyn sydd heb ei gynnwys yn y ffioedd a disgresiwn i breswylwyr a theuluoedd brynu gwasanaethau ychwanegol sy'n welliannau ychwanegol go iawn a dim ond os ydynt yn dewis gwneud hynny.

### Elw am bwrpas

Mae mwy o fuddsoddiad parhaus o arian cyhoeddus yn codi cwestiynau am yr hyn sy'n gyfystyr â lefel dderbyniol o elw i ddarparwyr y sector preifat. Mae'n hollbwysig rhoi blaenoriaeth i wella ansawdd a darpariaeth gofal, gan gynnwys buddsoddi yn y gweithlu gofal cymdeithasol, cyn cynyddu elw i ddarparwyr y sector preifat.

Mae'n rhaid i breswylwyr cartrefi gofal, eu hanwyliaid a chymdeithas yn ehangach dderbyn, yn fras, y cydbwysedd rhwng cyllid cyhoeddus, elw darparwyr ac adenillion cymdeithasol o fuddsoddi.

### Mynediad i'ch arian eich hun

I gloi, mae'r Comisiynydd wedi bod yn bryderus iawn i glywed bod yna dystiolaeth ar draws Cymru o bobl hŷn mewn cartrefi gofal nad ydynt yn gallu cael mynediad i'w harian eu hunain i dalu am eitemau personol fel dillad a nwyddau ymolchi oherwydd nad yw'r galluedd meddyliol ganddynt ac heb unrhyw un i weithredu fel eu dirprwy i awdurdodi i drosglwyddo arian o'u cyfrifon banc. Mae'r sefyllfa hon yn peryglu urddas, iechyd a llesiant pobl hŷn ac ni ellir caniatáu iddo barhau. Mae cyfle i fynd i'r afael â hyn drwy'r broses gomisiynu.

## Casgliadau

Mae'r Comisiynydd yn edrych ymlaen at glywed cynigion Llywodraeth Cymru yn fanylach ar gyfer Fframwaith Gofal a Chymorth Cenedlaethol, ac i weld canlyniadau modelau cenedlaethol newydd ar gyfer gofal integredig mewn lleoliadau preswyl y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n hanfodol bod comisiynu cartrefi preswyl yn lleihau cymhlethdod ac yn ail-gydbwyso comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau, gyda'r hyn sy'n bwysig i bobl hŷn yn ganolog iddo, os ydym am sicrhau darpariaeth o gartrefi gofal da y bydd wastad eu hangen arnom yn y dyfodol.

# Cyfeiriadau

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2014) Lle i'w Alw'n Gartref". Ar gael yn: https://olderpeoplewales.com/en/news/news/14-11-10/A_Place_to_Call_Home_Care_Home_Review_Report.aspx

[2] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020) Lleisiau Cartrefi Gofal: Cipolwg ar fywyd yng nghartrefi gofal Cymru yn ystod Covid-19. Ar gael yn: https://olderpeoplewales.com/en/news/news/20-06-21/Care_Home_Voices_A_snapshot_of_life_in_care_homes_in_Wales_during_Covid-19.aspx

[3] Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (2018) Astudiaeth o'r Farchnad Cartrefi Gofal. t.39. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a1fdf30e5274a750b82533a/care-homes-market-study-final-report.pdf

[4] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 a 5 o God Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol), Llywodraeth Cymru (fersiwn 2 – Ebrill 2017). https://gov.wales/code-practice-charging-social-care-services

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae’n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae’n gweithio i rymuso pobl hŷn ac i sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed ac y gweithredir ar hynny. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol lle bo angen.

Mae’r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio’n dda.

**Mae’r Comisiynydd am weld Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau’n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.**

## Sut i gysylltu â’r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: @talkolderpeople

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mark Isherwood AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

31 Mawrth 2022

Annwyl Mr Isherwood,

**STRWYTHUR UWCH-REOLI LLYWODRAETH CYMRU**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn sefydlu strwythur Grŵp newydd ar gyfer y sefydliad o 1 Ebrill a fydd yn cynnwys rhai newidiadau i rolau a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol cysylltiedig.

Gobeithiaf y bydd y strwythur yr wyf yn ei gyflwyno yn caniatáu i wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth mwy uniongyrchol ar lefel uchel iawn i'r portffolios Gweinidogol ac i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd hefyd yn darparu set fwy cytbwys o gyfrifoldebau i Gyfarwyddwyr Cyffredinol ac yn hwyluso trefniadau ar gyfer gweithio ar draws y llywodraeth yn well. Rwyf wedi trafod y cynigion hyn gyda'r Prif Weinidog ac, er ei fod yn cydnabod mai mater imi fel yr Ysgrifennydd Parhaol yw hwn, mae'n cefnogi'r newidiadau.

Rwy'n amgáu siart gyda'r llythyr hwn sy'n dangos y swyddogaethau a fydd yn cyd-fynd â phob Grŵp newydd ac, yn yr achosion hynny lle y mae hyn yn hysbys ar hyn o bryd, yr unigolion a fydd yn cyflawni rolau'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol newydd.

Byddaf yn dynodi deiliaid pob swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Gobeithiaf y bydd y trefniadau newydd o gymorth i bob un ohonynt gyflawni'r rolau hynny mor effeithiol â phosibl ac, wrth imi roi'r dirprwyaethau diwygiedig, byddaf yn manteisio ar y cyfle i atgoffa pob un pa mor bwysig ydyw iddynt weithio mewn

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

modd cadarnhaol ac adeiladol gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru.



**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

# Y Prif Weinidog

**Aliniad swyddogaethau Llywodraeth Cymru â'r Portffolios Gweinidogol**

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
- Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gweinidog Newid Hinsawdd
- Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
- Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
- Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
- Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
- Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
- Gweinidog yr Economi
- Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon
- Cwnsler Cyffredinol
- Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

## Yr Ysgrifennydd Parhaol

### Swyddfa'r Prif Weinidog

- Swyddfa'r Prif Weinidog
- Swyddfa'r Cabinet
- Is-adran y Cabinet
- -
- Moeseg
- Ymchwiliad Covid
- -
- Uned y Cytundeb Cydweithio

### CC, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Weithredwr GIG Cymru
**Judith Paget**

Swyddogaethau :

- Perfformiad GIG Cymru
- Cyllid y GIG
- Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed a Llywodraethiant y GIG
- Gofal Sylfaenol
- Iechyd Poblogaethau
- Y Rhaglen Frechu
- Trawsnewid Digidol
- Gweithlu a Gweithrediadau'r GIG
- Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
- Y Prif Swyddog Meddygol
- Y Prif Swyddog Nyrsio
- CAFCASS

### CC, Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
**Tracey Burke**

Swyddogaethau:

- Newid Hinsawdd
- Tai ac Adfywio
- Seilwaith
- Yr Adran Gynllunio
- Yr Amgylchedd a'r Môr
- Tir, Natur a Bwyd
- Y Prif Swyddog Milfeddygol
- Gweithrediadau

### CC, Y Grŵp Addysg a Chyfiawnder Cymdeithasol
**Gwag**

Swyddogaethau:

- Addysg
- Y Gymraeg
- Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
- Cymunedau a Threchu Tlodi
- Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Gweithrediadau

### CC, Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
**Andrew Slade**

Swyddogaethau :

- Y Trysorlys
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Y Cwnsler Deddfwriaethol
- Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Busnes a Rhanbarthau
- Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Y Prif Swyddog Gwyddonol
- WEFO
- Gweithrediadau

### CC, Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu
**Gwag**

Swyddogaethau :

- Gweithrediadau ac Effeithlonrwydd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Cyfathrebu
- Llywodraethiant
- Masnachol a Chaffael
- DDAT & Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS)
- Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru
- AGC
- AGIC

### CC Dros Dro, Y Grŵp Adfer wedi Covid a Llywodraeth Leol
**Reg Kilpatrick**

Swyddogaethau :

- Adfer ac Ailgychwyn
- Argyfyngau Sifil Posibl a Diogelwch Gwladol
- Llywodraeth Leol (bydd yn alinio â'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Addysg a Chyfiawnder Cymdeithasol yn y tymor canolig)
- *Gogledd Cymru

# Alignment of Welsh Government functions to Ministerial Portfolios

## First Minister

- Minister Health & Social Services
- Deputy Minister Mental Health & Well-being
- Deputy Minister Social Services
- Minister Climate Change
- Deputy Minister Climate Change
- Minister Rural Affairs, *North Wales & Trefnydd
- Minister Education & Welsh Language
- Minister Social Justice
- Deputy Minister Social Partnership
- Minister Economy
- Deputy Minister Arts & Sport
- Counsel General
- Minister Finance and Local Government

## Permanent Secretary

**Office of the First Minister**

First Minister's Office

Cabinet Office

Cabinet Division

-

Ethics

Covid Inquiry

-

Co-operation Unit

### DG, Health and Social Services Group Chief Executive, NHS Wales Judith Paget

Functions:

- NHS Wales Performance
- NHS Finance
- Mental Health, Vulnerable Groups & NHS Governance
- Primary Care
- Population Health
- Vaccine Programme
- Digital Transformation
- NHS Workforce & Operations
- Social Services & Chief Social Care Officer
- Chief Medical Officer
- Chief Nursing Officer
- CAFCASS

### DG, Climate Change and Rural Affairs Group Tracey Burke

Functions:

- Climate Change
- Housing & Regeneration
- Infrastructure
- Planning
- Environment & Marine
- Land, Nature & Food
- Chief Veterinary Officer
- Operations

### DG, Education and Social Justice Group Vacant

Functions:

- Education
- Welsh Language
- Skills, Higher Education & Lifelong Learning
- Communities & Tackling Poverty
- Social Partnership & Fair Work
- Operations

### DG, Economy, Treasury and Constitution Group Andrew Slade

Functions:

- Treasury
- Legal Services
- Legislative Counsel
- Constitution & Justice
- International Relations & Trade
- Business & Regions
- Culture, Sport & Tourism
- Chief Scientific Officer
- WEFO
- Operations

### DG, Chief Operating Officer Group Vacant

Functions:

- Operations & Efficiency
- Finance
- HR
- Communications
- Governance
- Commercial & Procurement
- DDAT & KAS
- Planning & Environment Decisions Wales
- CIW
- HIW

### Temp. DG, Covid Recovery & Local Government Group Reg Kilpatrick

Functions:

- Recovery & Re-start
- Civil Contingencies and National Security
- Local Government (will align to DG Education and Social Justice in medium term)
- *North Wales